**CYNGOR CYMUNED LLANYBYDDER**

**CYFARFOD 20 MAI 2025**

1. Croeso gan y Cadeirydd

2. Yn bresennol: K Jones, D Owen, M Morris, N Morris, H Jones.

Roedd yn dda i groesawu Heulwen Jones i'n cyfarfod cyntaf fel Cynghorydd newydd gan Cyngor Cymuned Llanybydder, a chroesewid gan y Clerc.

Derbyniwyd llythyr ymddiswyddiad wrth T Gordon. Clerc i gydnabod ei hymddiswyddiad.

Derbyniwyd llythyr ymddiswyddiad wrth C Wagner. Clerc i gydnabod ei ymddiswyddiad.

Cafodd y Cyfarfod Blynyddol ei ohirio tan 24 Mehefin 2025, ond penderfynwyd bod rhaid dewis Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd heno.

Cadeirydd newydd: Enwebwyd K Jones gan D Owen ac eiliwyd gan N Morris.

Dirprwy Gadeirydd newydd: Enwebwyd N Morris gan K Jones ac eiliwyd gan D Owen.

Croesawyd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gan y Clerc, a dymunodd y gorau iddynt ar gyfer y flwyddyn sydd ddod.

Derbyniwyd e-bost wrth Mrs Indy Perrin; penderfynodd nad oedd hi'n amser da iddi ymuno â'r Cyngor.

Bydd y Clerc yn diweddaru Gwasanaethau Etholiadol.

**3. BUDDIANNAU PERSONOL NEU RAGFARNOL**

Dim.

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

**5. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

2024 - 2.3: Cysylltodd y Clerc â Mike Dixon, South Wales Sports. Gofynnodd am gynllun a meintiau'r llinellau. Mae K Jones yn mynd i fesur a rhoi gwybod i'r Clerc cyn gynted â phosib.

Mai 2024 - 4.1: Cynhwysydd – Penderfynwyd dewis cynhwysydd 20' Clerc i e-bostio Mark Jukes i ddweud ein bod yn dychwelyd at y cynhwysydd 20'.

- Ebrill 2025 - 5.1: Golau'r toiledau allanol. Clerc i siarad ag Eddie Davies eto.

Ebrill 2025 - 5.3: Mae'r Sebra wedi'i dynnu – Mater ar y gweill.

Ebrill 2025 - 5.4: Paentio'r pyst gôl – Mae'r tendr arddangos gyda dyddiad cau 1/6/25.

Ebrill 2025 - 6.1: Arwydd stryd a palmant wedi'u ddifrodi – Adroddwyd i Gyngor Sir Gar.

6.12: Kay & James, Ramblers – Dim ond ar 24/06/25 allant fynychu.

6.15: Mr Garside – Mae Cyngor Sir Gar yn dal i edrych mewn i'r Gofrestrfa Tir. Bydd D Owen yn dilyn hyn.

6.16: Diwrnod VE – 8 Mai 2025 – Roedd y noson yn llwyddiannus. Diolch i Tania a Gary. Clerc i ddanfon llythyr o ddiolch i Gary Evans ac yr Esgob Eileen Davies.

## 6. MATERION NEWYDD LLANYBYDDER

6.1 Byrddau hysbys – Clerc i gysylltu â Dai Thomas i'w glanhau a'u gwasanaethu y byrddau yma, ac i awgrymu cefnogaeth newydd fel corc.

6.2: Toiledau – Mesuryddion arian. Mae tystiolaeth o ddefnydd cyffuriau. Mae'r arogl yn ofnadwy. Pawb i gadw llygad erbyn y cyfarfod nesaf.

6.3: Toiledau anabl – Nid yw'r drws yn cau'n iawn. Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Gar.

6.4: Twll ar ffordd Lon Gwrdy – Adrodd i Gyngor Sir Gar.

6.5: Coed Poplars – Cangen fawr wedi disgyn yn y parc. Clerc i anfon llythyr at y perchennog

6.6: Bwrdd picnic wedi'i fandaleiddio – Mae Malcolm Miller wedi cynnig ei drwsio am ddim.

## 7. MATERION RHYDCYMERAU

Dim.

## 8. DEG TREF

8.1: Murlun ar y cynhwysydd – Trafodwyd.

8.2: Grant gwledig newydd o £2k ar gyfer Gardd Synhwyraidd – Bydd D Owen yn delio â hyn.

8.3: Grant newydd ar gael – Bydd N Morris yn hysbysu'r Clwb Rygbi.

## 9. HYFFORDDIANT Y CYNGHORWYR A'R CLERC

Adroddiad hyfforddiant cyfredol ar 20/05/25. Dim sesiynau eraill ar hyn o bryd.

Hyfforddiant Cod Ymddygiad – 10/07/25 trwy Zoom yn unig.

Bydd y canlynol yn mynychu:

M Y Beynon (Clerc), D Owen, M Morris, H Jones.

Bydd y canlynol yn defnyddio'r recordiad:

K Jones (Cadeirydd), N Morris (Dirprwy Gadeirydd).

Clerc i gwblhau'r ffurflen a'i danfon i Mr Edgecombe.

**10. GOHEBIAETH**

10.1 Derbynwyd anfoneb wrth Colin Wagner (Tiny Thumb) am £1000.00 am storio eitemau'r Cyngor am 40 wythnos. Mae'r Clerc i ffonio ULC am gyngor gan roedd C Wagner dim wedi dweud dim am unrhyw dal iddo mewn unrhyw cyfarfod phan roedd yn Gadeirydd ein Cyngor y 12 mis diwethaf. Roedd wedi cael digon o gyfleoedd yn yr amser hyn i ddweud. Mi aeth yr amser ymlaen oherwydd y gwellantau y maes parcio.

10.2 Tania Gordon yn gofyn pryd bydd y blychau'n cael eu symud o'i heiddo. Clerc i ateb a dweud wrthi byddwn yn gwachau ei lle cyn gynted ac orffenwyd y gwellantau y maes parcio pan fyddwn yn gallu derbyn ein cynhwysydd.

10.3 Derbynwyd Adroddiad Heddlu Dyfed-Powys Mai 25.

**11. CYNLLUNIO**

Dim.

**12. CYLLID**

Datganiadau banc:

NatWest 18/04/25 - 19/05/25 - £56,248.34.

HSBC 01/05/25 - 30/05/25 - 4,150.17.

**TALIADAU**

**GORCHMYNION SEFYLL**

22/04/25 TALKTALK £123.14 (Talwyd gan BACS).

07/05/25 BT 4.45.

Ffoniodd BT y Clerc. Maent wedi rhoi gorchymyn erbyn yr 8/5/25 i orffen y gwaith erbyn 13/5/25. Maent wedi sortio'r broblem.

**TALIADAU AR LEIN**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 07/04/25 | EDF | £248.39 | Trydan toiledau. |
| 29/04/25 | M Y Beynon | 1198.87 | Cyflog 4/25. |
| 29/04/25 | AMRC | 299.60 | Tacs 4/25. |
| 01/05/25 | K Jones | 459.19 | Glanhau toiledau. |
| 20/05/25 | M Y Beynon | 1198.87 | Cyflog 5/25. |
| 20/05/25 | AMRC | 299.60 | Tacs 5/25. |
| 13/05/25 | TALKTALK | 123.14 | Teliffon. |
| 27/05/25 | Clear Insurance Management | 1765.74 | Yswiriant blynyddol. |

**CYFLOG M Y BEYNON**

| | |
|---|---|
| Cyflog 5/25 | £1498.47 |
| Llai treth 5/25 | 299.60 |
| Talwyd y Clerc | £1198.87 |

**INCWM:**

Dim.

**RHODDION:**

Dim.

Hyd yma S137 £750.00 S19 £0.00

**COMISIWN ELUSENNOL**

Mater ar y gweill.

**ARCHWILYDD MEWNOL**

Mae'r Clerc ar fin cwblhau'r cyfrifon 31/03/25 a'i danfon iddynt.

**ARCHWILIO CYMRU**

Disgrifiad o anghysondeb o £175.00 rhwng y datganiad cyfrifyddu a'r llyfr arian. Mae £175.00 o dacs heb i'w dalu gan y Clerc. Roed tipyn o helynt i gael bancio ar lein ac yn y diwedd mi welodd y Banc bod y garden darllenydd ddim yn gweitho. Mae AMRC a'r Archwilydd Mewnol wedi dweud wrth y Clerc am beidio a thalu'r £175.00 er mae dim ond 11 tal roedd y Clerc wedi talu am y flwyddyn yma. Dywedodd AMRC ei bod ddim eisiau i mi dalu'r £175.00 oherwydd byddai cydbwysedd y cyfrif mewn credyd. Ar ol fy nyddiau fel Clerc, efallai bydd yr AMRC yn gofyn am yr arian yma rhywbryd, a bydd y mater hyn i weld ar y cofnodion yma.

Bydd y Clerc yn danfon y Cyfrifon Blynyddol 31/03/25 i Archwilio Cymru yn fuan.

**RHEOLAU ARIANOL 2025**

Anfonwyd e-bost yn cynnwys y Rheolau Arianol 2025 cyn ein cyfarfod i bawb.

**ADNEWYDDU YSWIRIANT**

Derbyniwyd hysbysiad. Mae'r Clerc i dalu £1765.74 ac i'w drafod mis nesaf.

**14. UNRHYW FUSNES ARALL**

Dim.

Gorffennodd ein cyfarfod 9.20yh

BYDD EIN CYFARFOD NESAF YN FESTRI CAPEL ABERDUAR

NOS FAWRTH 30 FEDI 2025